CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced

429/51

**CYMDEITHASEG – SOC 6**

**UNED 6 - Y GYMDEITHAS HEDDIW**

A.M. DYDD MERCHER, 27 Mehefin 2007

(1½ awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **bob** cwestiwn o un opsiwn yn unig. Cynghorir chi i rannu eich amser yn ôl y marciau a roddir. Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb ar wahân a roddir i chi.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.

**Opsiwn 1: Cyfoeth a Thlodi**

## Eitem A

**Cyfansoddiad y tlodion yn ôl math o deulu a'r canran mewn tlodi**

| | **1992/93** | **2002/03** |
|---|---|---|
| **Yn ôl math o deulu** | **% mewn tlodi** | **% mewn tlodi** |
| Cwpl ar eu pensiwn | 10% | 13% |
| Pensiynwr sengl | 11% | 7% |
| Cwpl â phlant | 37% | 30% |
| Cwpl heb blant | 11% | 9% |
| Rhiant sengl | 17% | 20% |
| Person sengl heb blant | 14% | 21% |

Addaswyd o'r Adran Waith a Phensiynau (2004)

## Eitem B

**Statws cyflogaeth a'r canran mewn tlodi**

| | **1992/93** | **2002/03** |
|---|---|---|
| **Statws cyflogaeth** | **% mewn tlodi** | **% mewn tlodi** |
| Hunangyflogedig | 11% | 8% |
| Person sengl neu gwpl, mewn gwaith amser llawn | 2% | 5% |
| Un mewn gwaith amser llawn ac un mewn gwaith rhan-amser | 23% | 13% |
| Un mewn gwaith amser llawn ac un ddim yn gweithio | 9% | 10% |
| Un neu fwy mewn gwaith rhan-amser | 9% | 13% |
| Penteulu neu briod 60 oed neu'n hŷn | 23% | 26% |
| Penteulu neu briod di-waith | 22% | 25% |

Addaswyd o'r Adran Waith a Phensiynau (2004)

**1.** Atebwch **bob un** o'r cwestiynau canlynol:

*(a)* Gan roi enghreifftiau lle bo'n briodol, eglurwch beth yw ystyr **tlodi llwyr** *(absolute)* a **thlodi cymharol**. [10]

*(b)* (i) Gan ddefnyddio **Eitem A** yn unig, amlinellwch y tueddiadau yn y berthynas rhwng math o deulu a'r canran mewn tlodi rhwng 1992/93 a 2002/03. [10]

(ii) Gan ddefnyddio **Eitem B** yn unig, amlinellwch y tueddiadau yn y berthynas rhwng statws cyflogaeth a'r canran mewn tlodi rhwng 1992/93 a 2002/03. [10]

*(c)* Gan gyfeirio at fwy nag un maes o gymdeithaseg y buoch yn eu hastudio o'r blaen, amlinellwch ac eglurwch y dystiolaeth sy'n awgrymu bod rhai grwpiau'n fwy tebygol nag eraill o gael profiad o dlodi. [25]

*(ch)* Amlinellwch a gwerthuswch gyfraniad esboniadau strwythurol at ein dealltwriaeth o dlodi. [45]

**Opsiwn 2: Cymdeithaseg Fyd-eang**

## Eitem A

**Poblogaeth**

| **Rhanbarth/ gwlad** | **Cyfanswm y boblogaeth (miliynau) 1980** | **Cyfanswm y boblogaeth (miliynau) 1997** | **% cyfartalog y twf blynyddol yn y boblogaeth** |
|---|---|---|---|
| Bangladesh | 87 | 124 | 1.6 |
| Brazil | 121 | 164 | 1.4 |
| China | 981 | 1227 | 1.1 |
| Ethiopia | 38 | 60 | 2.3 |
| India | 687 | 961 | 1.8 |
| Indonesia | 148 | 200 | 1.7 |
| Mozambique | 12 | 19 | 3.8 |
| Y byd datblygedig | 825 | 926 | 0.7 |

Addaswyd o Moore, Aiken a Chapman, *Sociology A2* (2006)

## Eitem B

**Cyfraddau Marwolaeth**

| **Rhanbarth/ gwlad** | **Cyfradd marwolaeth plant dan 5 oed (am bob 1000) 1996** | **Cyfradd marwolaeth mamau (am bob 100 000 o enedigaethau byw) 1990-96** |
|---|---|---|
| Bangladesh | 112 | 850 |
| Brazil | 42 | 160 |
| China | 39 | 115 |
| Ethiopia | 177 | 1400 |
| India | 85 | 437 |
| Indonesia | 60 | 390 |
| Mozambique | 214 | 1500 |
| Y byd datblygedig | 7 | – |

Addaswyd o Moore, Aiken a Chapman, *Sociology A2* (2006)

**2.** Atebwch **bob un** o'r cwestiynau canlynol:

*(a)* Gan roi enghreifftiau lle bo'n briodol, eglurwch beth yw ystyr y term **datblygiad**. [10]

*(b)* (i) Gan ddefnyddio **Eitem A** yn unig, amlinellwch y patrymau a'r tueddiadau yn y berthynas rhwng rhanbarthau/gwledydd a'r newid poblogaeth rhwng 1980 a 1997. [10]

(ii) Gan ddefnyddio **Eitem B** yn unig, amlinellwch y berthynas rhwng rhanbarthau/gwledydd a chyfraddau marwolaeth plant dan 5 oed a mamau. [10]

*(c)* Gan gyfeirio at fwy nag un maes o gymdeithaseg y buoch yn eu hastudio o'r blaen, amlinellwch ac eglurwch y dystiolaeth sy'n awgrymu bod menywod mewn cymdeithasau gwahanol yn parhau i brofi anghydraddoldeb. [25]

*(ch)* Amlinellwch a gwerthuswch gyfraniad y ddamcaniaeth moderneiddio at ein dealltwriaeth o dlodi'r Trydydd Byd. [45]

**Opsiwn 3: Rhaniadau Cymdeithasol**

## Eitem A

**Cyflogaeth 2005**

| | | Mewn gwaith | |
|---|---|---|---|
| **Menywod 16-64 oed** | | **% amser llawn** | **% rhan-amser** |
| Pob mam | | 45 | 55 |
| Plentyn ieuengaf | 0-4 | 31 | 69 |
| | 5-10 | 45 | 55 |
| | 11-15 | 54 | 46 |
| | 16-18 | 60 | 40 |
| Dim plant dibynnol | | 67 | 33 |
| Pob menyw | | 58 | 42 |

Ffynhonnell: *Arolwg o'r Llafurlu*, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Set ddata Gwanwyn 2005)

## Eitem B

**Enillion amser llawn a rhan-amser 2004**

| **Enillion** | **Menywod** | **Dynion** | **Y bwlch tâl rhwng y ddau rywedd** *(gender)* |
|---|---|---|---|
| **Enillion yn ôl yr awr** | **(£ yr awr)** | **(£ yr awr)** | |
| Amser llawn | 11.21 | 13.73 | 18% |
| Rhan-amser | 8.19 | 9.36 | 14% |
| **Enillion Wythnosol** | **(£ yr wythnos)** | **(£ yr wythnos)** | |
| Amser llawn | 420 | 557 | 25% |
| **Enillion Blynyddol** | **(£k y flwyddyn)** | **(£k y flwyddyn)** | |
| Amser llawn | 21.7 | 30.1 | 28% |

Addaswyd o *Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion*, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2004)

**3.** Atebwch **bob un** o'r cwestiynau canlynol:

*(a)* Gan roi enghreifftiau lle bo'n briodol, eglurwch beth yw ystyr y term **haeniad** *(stratification)* **cymdeithasol**. [10]

*(b)* (i) Gan ddefnyddio **Eitem A** yn unig, amlinellwch y berthynas rhwng bod yn fam, oedran y plant a chyflogaeth yn achos menywod. [10]

(ii) Gan ddefnyddio **Eitem B** yn unig, amlinellwch y berthynas rhwng rhywedd *(gender)* ac enillion. [10]

*(c)* Gan gyfeirio at fwy nag un maes o gymdeithaseg y buoch yn eu hastudio o'r blaen, amlinellwch ac eglurwch y dystiolaeth sy'n awgrymu bod menywod yn parhau i brofi anghydraddoldeb yn y gymdeithas gyfoes. [25]

*(ch)* Amlinellwch a gwerthuswch gyfraniad esboniadau Ffeministaidd at ein dealltwriaeth o anghydraddoldebau rhywedd *(gender inequalities)*. [45]